Ysgol Dyffryn Conwy

Cynllun Trosglwyddo CA2-3 Dalgylch

Ysgol Dyffryn Conwy Catchment Area Transition Plan KS2-3

Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved

Dyddiad Adolygu / Review Date

2019/20

Cynllun Trosglwyddo CA2-3 Dalgylch Ysgol Dyffryn Conwy 2019/20

1. **Gosod Cyd-destun:**

Mae Dalgylch Dyffryn Conwy yn un eang yn ddaearyddol sydd yn cael ei wasanaethu gan 14 o Ysgolion Cynradd ac Ysgol Uwchradd Dyffryn Conwy.

Mae'r dalgylch yn cynnwys Ysgolion o wahanol faint sydd yn gwasanaethu ardaloedd gwledig a thref Llanrwst. Mae pob ysgol ond un yn dilyn Cyfrwng Cymraeg, tra bod un ysgol yn ysgol Categori B. Mae'r bartneriaeth ieithyddol ac addysgol efo'n hysgolion Cynradd wedi bod yn elfen allweddol o'r newid llwyddiannus yn ein cyfrwng ieithyddol yn CA3 o 2010/11 ymlaen.

Mae'r bartneriaeth Strategol rhwng Ysgol Dyffryn Conwy a'n partneriaid Cynradd yn un allweddol i fel ysgol ac yn un rydym yn falch iawn ohono. Bellach cydnabyddir y bartneriaeth hon, ei effaith, a'r bwriadau ar gyfer cynllunio strategol i'r dyfodol fel arfer dda gan yr ALl, Estyn, GWE a Swyddogion LlC.

Fel rhan o ymateb i godi safonau mewn meysydd allweddol megis y Gymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth rydym wedi cynllunio i gyllido hyfforddiant a DPP ar y cyd; i gymedroli ac i rannu adnoddau a chysoni dulliau dysgu ac addysgu. Bellach rydym yn cyd-gynllunio ar lefel strategol ac wedi cychwyn alinio ein prosesau a'n dogfennaeth lywodraethol er mwyn rhannu arfer dda a chefnogi ein gilydd.

Mae gennym weledigaeth strategol a dyhead cryf i ddatblygu'r bartneriaeth sydd eisoes yn bodoli yn y Dalgylch er mwyn budd ein disgyblion, ein staff a'n gymuned. Gwelwn hyn fel cryfder mewn cyfnod o leihad mewn cefnogaeth allanol a chynnydd mewn rhannu arferion da, arbenigeddau ac adnoddau ar lefel lleol. Byddwn yn cynllunio ar y cyd i roi'r weledigaeth hyn ar waith yn ein cynlluniau ar gyfer 2015/16 a thu hwnt gan gydnabod fod ystod o arbenigeddau ac adnoddau gennym y gallwn fanteisio arno er mwyn ychwanegu capasiti ar lefel rheolaethol, addysgol, cefnogaeth (gweinyddol, cyllidol, TGCh ac addysgol) ac adnoddau wrth gydweithio ar draws y dalgylch. Byddwn hefyd yn adnabod cyfleoedd i gydweithio fel Dalgylch i ymateb i her adroddiad Donaldson, 'Dyfodol Llwyddiannus' a'r ddogfen 'Gymwys am Oes'.

Lluniwyd y Cynlluniau Trosglwyddo atodol fel ymateb i'r gofynion statudol gan LlC ar gyfer cynlluniau Trosglwyddo CA2-3 (Cylchlythyr 30/2006).

Ysgolion Dalgylch Dyffryn Conwy:

Ysgol Dyffryn Conwy (Uwchradd)

1. Ysgol Bro Gwydir
2. Ysgol Llanddoged
3. Ysgol Capel Garmon
4. Ysgol Ysbyty Ifan
5. Ysgol Betws-y-Coed
6. Ysgol Dolwyddelan
7. Ysgol Penmachno
8. Ysgol Pentrefoelas
9. Ysgol Cerrigydrudion
10. Ysgol Bro Cernyw
11. Ysgol Dyffryn yr Enfys
12. Ysgol Eglwysbach
13. Ysgol Glan Conwy

Er y gall y niferoedd sydd yn trosglwyddo o flwyddyn 6 yr ysgolion Cynradd uchod amrywio o flwyddyn i flwyddyn mae cysondeb da yn y patrwm o drosglwyddo o ysgolion y Dalgylch i YDC. O ganlyniad mae'r ysgolion uchod yn ymateb i'r gofynion cyfreithiol ar gyfer llunio cynlluniau trosglwyddo i'r dalgylch (h.y. mae mwy na hanner y disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Dyffryn Conwy o'r ysgol gynradd).

2. **<u>Bwriad y Cynllun Trosglwyddo:</u>**

i. **I sicrhau fod ysgol Uwchradd a'r ysgolion Cynradd sydd yn ei fwydo yn adeiladu ar sylfaen gadarn o gydweithio i sicrhau gwella cysondeb yn y ddarpariaeth cwricwlwm;**

ii. **I amlinellu trefniadau ar gyfer cyd-gordio trefniadau trosglwyddo;**

iii. **Cyd-gynllunio ar elfennau o'r cwricwlwm a rhannu arferion da gan gynnwys dilyniant ieithyddol;**

iv. **Gwella cysondeb mewn dulliau a strategaethau dysgu ac addysgu gan gynnwys rhannu arfer dda, a hyfforddiant / DPP ar y cyd;**

v. **Sicrhau cysondeb mewn asesu, monitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn ôl eu cyrhaeddiad blaenorol e.e. drwy safoni a chymedroli gwaith disgyblion, rhannu gwybodaeth am gyrhaeddiad, asesiadau a chynnydd disgyblion yn effeithiol; ac**

vi. **Arfarnu effaith y polisi a gweithredu ar safonau a chynllunio ar y cyd ar gyfer blaenoriaethau a gwelliannau i'r dyfodol.**

Adolygir y cynllun Trosglwyddo yn Flynyddol drwy lunio Cynllun Gweithredu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf wedi ei selio ar flaenoriaethau cytunedig lleol, ALl a Chenedlaethol ynghyd a chynlluniau grantiau cenedlaethol (GAG a Throchi, GEY, GAD).

<u>3) Manteision Cynllun Trosglwyddo Cytunedig:</u>

- Gwelliant ym mhrofiadau a deilliannau dysgu disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o CA2 gan osgoi sefyllfaoedd o ailadrodd a diffyg her;
- Dilyniant yn dysgu'r disgyblion ar draws y cyfnodau allweddol gan gynnwys adeiladu ar gynnwys, sgiliau a methodoleg flaenorol;
- Gwelliant wrth rannu gwybodaeth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd fel bod gan athrawon uwchradd ddarlun clir a manwl o gryfderau disgyblion a'r agweddau sydd angen sylw;
- Partneriaeth gydweithredol ac adeiladol rhwng ysgolion ac athrawon yn y ddau sector er mwyn rhannu arfer dda a dysgu o'i gilydd;
- Cysondeb a gwelliant yn neilliannau asesu disgyblion ar sail dealltwriaeth gytunedig o ofynion a nodweddion asesu, yn enwedig wrth drosglwyddo o flwyddyn 6 i 7; a
- Gwelliant yn trosglwyddo cymdeithasol a bugeiliol y disgyblion fel nad ydynt yn gweld y broses o drosglwyddo o ysgol gynradd i uwchradd yn un anodd a pryderus; dealltwriaeth ganddynt o weithdrefnau a safle'r ysgol uwchradd cyn iddynt drosglwyddo a chyfle iddynt ddod i adnabod rhai o'r athrawon fydd yn eu dysgu a rhai o'r pynciau fyddent yn ei ddysgu.

<u>4) Cynnwys Cynllun Trosglwyddo:</u>

Disgwylir i gynllun trosglwyddo gyfeirio at:

1. Reoli a chydlynu trosglwyddo.
2. Cynllunio ar y cyd ar gyfer y cwricwlwm.

3. Trefniadau ar gyfer sicrhau cysondeb mewn strategaethau dysgu ac addysgu.
4. Cysondeb mewn asesu.
5. Arfarnu effaith y polisi a'i weithredu.

Cymeradwywyd y Polisi ar ran Cyrff Llywodraethol Ysgol y Dalgylch gan:

YSGOL:	**PENNAETH:**
1. Ysgol Dyffryn Conwy (Uwchradd)	**Miss Elan Davies**
2. Ysgol Bro Gwydir	**Miss Meinir Lloyd Jones**
3. Ysgol Llanddoged	**Mr Gareth Lloyd Davies**
4. Ysgol Ysbyty Ifan	**Mrs Nia Jones**
Ysgolion Capel Coed-Elan (Ffederaleiddio) 5. Ysgol Capel Garmon 6. Ysgol Betws-y-Coed 7. Ysgol Dolwyddelan	**Mrs Nia Jones – Artell**
8. Ysgol Penmachno	**Mrs Bethan Davies**
9. Ysgol Pentrefoelas	**Mr Rhodri Evans**
10. Ysgol Cerrigydrudion	**Mrs Eirlys Edwards**
11. Ysgol Bro Cernyw	**Mrs Sioned Green**
12. Ysgol Dyffryn yr Enfys	**Mrs Karen Lloyd Owen**
13. Ysgol Eglwysbach	**Mrs Nia Daly**
14. Ysgol Glan Conwy	**Mrs Eifiona Price-Williams**

Ysgolion Cydweithio Cwricwlwm i Gymru:

Ysgol Bro Aled, Llansannan - Ms Einir M Jones

Ysgol Llanfairtalhaiarn - Mr Nick Evans

Ysgol Llannefydd. - Mr Gari Evans

Dyddiad Adolygu Diweddaraf: _____Medi 2019_____

Atodiad A: Cynllun Gweithredu Cynradd-Uwchradd Ysgol Dyffryn Conwy 2017/18

	Blaenoriaeth:	Camau Gweithredu:	Deilliannau Dymunol:	Pwy?	Pryd?	Cyllid?
TREFNIADAU PONTIO ARFEROL: LLES ACYNNYDD DISGYBLION	1. Parhau i sicrhau trefniadau pontio effeithiol ar gyfer disgyblion blwyddyn 5 a 6.	1.1 Trefnu diwrnodau ymweld ac anwytho i flwyddyn 6 –27/09/**19 a 29-30/6/20.** 1.2 Trefniadau noson agored i flwyddyn 5 a 6 a'u rhieni (08/10/19) a noson rhieni i flwyddyn 6 (30/6/20). 1.3 Ymweliadau pontio gan Bennaeth Cynnydd Blwyddyn 7, ALNCO a disgyblion blwyddyn 7 (Haf 2019 a 2020. 1.4 Ymweliadau ychwanegol i ddisgyblion fydd yn trosglwyddo i'r uned ADY a chydweithio rhwng ALNCO yr ysgol uwchradd a'r cynradd. 1.5 Ymweliadau ychwanegol i ddisgyblion MAT - rhifedd (Her Mathemateg). 5. Pecyn cymedroli Cymraeg drwy gydweithio ar dasgau a gweithgareddau i ymestyn yn y Gymraeg a'r Saesneg. 1.6 Parhau i ehangu'r cyfleoedd i ddefnyddio offer arbenigol YDC gan y Dalgylch - gwyddoniaeth, technoleg, Addysg Gorfforol ... a datblygu cynlluniau pontio Dyfodol Llwyddiannus 1.7 Ychwanegu at y gweithgareddau pontio drwy rôl y swyddog rygbi, a'r Cyd-gysylltydd Bac ac Adran Addysg Gorfforol.	Disgyblion blwyddyn 6 sydd yn trosglwyddo i'r ysgol wedi cael cyfle i ymgyfarwyddo a'r safle, cyfarfod athrawon a'u tiwtoriaid dosbarth, cyfarfod disgyblion hyn gan gynnwys disgyblion y 6ed dosbarth ac wedi cael blas ar wersi a gweithgareddau dysgu amrywiol. Rhieni a disgyblion yn cael y cyfle i ymweld â'r safle, i drafod efo UDRh ac athrawon pwnc ac i drafod a holi am yr ysgol. Disgyblion sydd yn trosglwyddo i'r Uned ADY wedi cael cyfle i gyfarfod staff yr Uned, i dreulio amser yn yr uned ac i ddysgu am drefniadau dyddiol yr uned. Gofidion disgyblion a'u rhieni wedi eu lleddfu. Disgyblion MAT yn cael cyfleoedd i gyfarfod, cyd-ddysgu ac ymestyn ei sgiliau llythrennedd a rhifedd ar y cyd. Disgyblion iau yn datblygu hyder wrth ymweld ag YDC ac yn cael profiadau o ddefnyddio offer arbenigol. Disgyblion cynradd yn rhan o gyfranogiad mewn gweithgareddau	Disgyblion Bl 6 DA/EA (trefniadau gweinyddol) GI/LMJ/RE/RB trefniadau'r dydd UDRh, DA, EA trefniadau'r noson agored LMJ, RE LR, RE trefniadau'r dydd. BEJ/AHE, ASR TC/EWJ Penaethiaid Cynradd + LLJ, HJ, HMG, JT,	Hydref 2019 Mehefin-Gorffennaf 2020 Mehefin a Gorffennaf 2020 Mehefin / Gorffennaf 2020 Hydref 2019 Mehefin 2020	Costau llogi bws Costau trafnidiaeth yn ôl y galw Costau teithio i'r disgyblion ac adnoddau fel yn briodol. Hysbysebion ar y safwe ac yn y Weekly News (YDC)

		1.8 Rhannu Copïau o'r Prosbectws Ysgol Dyffryn Conwy efo disgyblion Cynradd er mwyn rhannu ethos a phrofiadau.	allgyrsiol ac yn dod i adnabod ei gilydd drwy hynny e.e. Clwb Nant Conwy, defnydd o'r ganolfan hamdden drwy'r ysgol, gweithgareddau amlgamp ... Disgyblion cynradd a'u rhieni yn ymwybodol o lwyddiannau a phrofiadau ehangach yr ysgol.	JVT, RJ/SLT/AP, Llion Jones		
2. **TREFNIADAU PONTIO ARFEROL: LLES ACYNNYDD DISGYBLION**	Sicrhau fod gwybodaeth o gyrhaeddiad blaenorol yn cael ei drosglwyddo yn effeithiol rhwng CA2-3 gan gynnwys deilliannau'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol.	2.1 Cyfarfod Penaethiaid y Dalgylch a Phennaeth Cynnydd Bl 7, Dirprwy Bennaeth a'r Cydlynydd ADY YDC 2.2. Ymweliadau gan y Pennaeth Blwyddyn i bob ysgol gynradd er mwyn cyfarfod a'r disgyblion, trafod efo'r athrawon dosbarth a'r Penaethiaid. 2.3 Ymweliadau gan y Cydlynydd ADY i gyfarfod a disgyblion unigol. Cymryd rhan hefyd mewn adolygiadau blynyddol disgyblion ADY blwyddyn 6 y Dalgylch a cynllunio ymyrraeth buan lle fo angen ar gyfer disgyblion bregis.	Datblygu ymhellach y bartneriaeth rhwng arweinwyr y Dalgylch er mwyn rhannu gwybodaeth, adnabod blaenoriaethau a chynllunio ar y cyd. Gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol er mwyn trefnu dosbarthiadau dysgu ar sail cyrhaeddiad blaenorol, ffrindiau a gwybodaeth fugeiliol gefndirol. Gwybodaeth y profion cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio gan yr holl ysgolion er mwyn adnabod blaenoriaethau ar y cyd ac ar gyfer cynllunio rhaglennu ymyrraeth ac ymestyn (e.e. ysgol Haf, gweithdai rhifedd ac iaith MAT) Gwybodaeth ac anghenion disgyblion ADY yn cael ei drosglwyddo yn effeithiol a'i fwydo i systemau tracio ac olrhain disgyblion yr ysgol (SIMS), ei fwydo	Penaethiaid Cynradd EWD, LMJ/RB, RE, LLJ Athrawon CA2, Phenaethiaid a/neu Gydlynwyr Ysgolion Cynradd y Dalgylch ASR a BEJ/AHE (cydlynwyr llythrennedd a rhifedd YDC) RE a LR Staff dysgu a chefnogi dysgu YDC	Medi 2018 ymlaen Mehefin-Medi 2019 a 2020 Mehefin-Medi 2019 a 2020 Mehefin-Medi 2019 a 2020	Costau teithio lle'n berthnasol. Amser digyswllt i'r Cydlynydd Rhifedd Amser digyswllt i'r P Blwyddyn / Cydlynydd ADY

			i gynlluniau addysg unigol y disgyblion, a'i rannu efo athrawon a chynorthwywyr cefnogi dysgu. Y wybodaeth yn cael ei ddefnyddio i gynllunio, monitro cynnydd ac adrodd ar gynnydd y disgyblion.			
3.TREFNIADAU PONTIO ARFEROL: LLES ACYNNYDD DISGYBLION	Parhau i sicrhau dilyniant ieithyddol priodol ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 wrth iddynt drosglwyddo i flwyddyn 7 fel rhan o Strategaeth Addysg Gymraeg Conwy.	Disgyblion blwyddyn 6 yn trosglwyddo i'r dosbarthiadau a chyfrwng priodol iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i wneud cynnydd yn y Gymraeg - unai drwy drac iaith gyntaf neu ail iaith.	Ymweliadau'r Pennaeth blwyddyn i gasglu gwybodaeth a data CA2 yn cynnwys trafodaeth am gyflawniad disgyblion yn y Gymraeg a'u trac ieithyddol. Disgyblion yn cael eu rhoi mewn grwpiau sydd yn briodol i'w trac iaith yn CA2 a'i anghenion ieithyddol ar gyfer iaith ac iaith ar draws y cwricwlwm. Y % o ddisgyblion sydd yn dilyn track iaith gyntaf a chyfrwng Cymraeg yn parhau i aros yn uchel neu gynyddu yn ôl trac iaith flaenorol y disgyblion.	RE/LMJ/RB Athrawon CA2 a Phenaethiaid Cynradd	Mai-Mehefin 2019 a 2020 Erbyn ymweliad bl.6 diwedd Mehefin 2019 a 2020	Costau teithio lle'n berthnasol. Amser digyswllt i'r P Blwyddyn
4.CYMEDROLI CA2-3	Ymateb ar y cyd i anghenion DPP ein staff - Cymedroli CA2-3; a codi safonau yn y pynciau craidd a profion cenedlaethol.	Staff yn cydweithio ar gynllunio, datblygu strategaethau, dulliau ac adnoddau dysgu ac addysgu cytunedig er mwyn parhau i ymateb i'r Rhaglenni Astudio Iaith a Mathemateg a cydweithio i bontio i Cwricwlwm i Gymru yn y pynciau iaith a mathemateg a rhifedd. Strategaethau, dulliau ac adnoddau cytunedig yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau cysondeb a dilyniant rhwng cyfnodau allweddol ac ysgolion y Dalgylch.	Y dalgylch yn ymateb i'r gofynion trosiannol gan GWE a LlC ar gyfer cymedroli a dechrau edrych ar gofynion Cwricwlwm i Gymru o Haf 2019: Saesneg CA2-3 Cymraeg CA2-3 Mathemateg CA2-3 Gwyddoniaeth CA2-3. Cymedroli wedi ei gwblhau o fewn y llinell amser disgwyliedig cyn diwedd Mai 2020. Proffiliau ysgolion wedi eu	Penaethiaid Cynradd ac EWD/BEJ/AHE/AS RE/TC/EWJ	Hydref – Haf 2019/20	

		Diwrnod ar y cyd ar gyfer iaith (Cymraeg a Saesneg). Diwrnod ar y cyd ar gyfer Gwyddoniaeth a Mathemateg. 2 ddiwrnod cymedroli terfynnol **Gwanwyn**/Haf 2020.	cymedroli gan ysgolion y dalgylch yn y 4 pwnc craidd. Proffiliau ysgolion yn cael eu cytuno gan GWE/LLC/Arall yn unol â threfn cymedroli Rhanbarthol a chenedlaethol.		Hydref/ Gwanwyn Tymor yr Haf	Grantiau 2019/20 ysgolion
5. CYNLLUN RHEOLWYR BUSNES DALGYLCH	Cydgynllunio yn strategol er mwyn rhannu adnoddau ac arbenigeddau i'r dyfodol: Cynllun Rheolwyr Busnes Dalgylch – **Cynllun Parhaol 2019 ymlaen.**	Cyfarfodydd cyd-gynllunio, cyfweliadau ar gyfer y 3 rheolwr busnes newydd; cyfarfodydd adolygu cynnydd ac adnabod anghenion. Trefniant monitro a gwerthuso.	Defnydd strategol yn cael ei wneud o gyllid, adnoddau a staff ar lefel dalgylch er budd ein disgyblion, staff a'r gymuned ehangach. Blaenoriaethau: - Cynllun Rheolwyr Busnes Dalgylch	Penaethiaid Cynradd, UDRh YDC	Cyfarfodydd Tymhorol Hydref, Ionawr, Ebrill, Mehefin	Cynllun grant ysgolion bach a gwledig.
6. PROSIECTAU CWRICWLWM I GYMRU	Cyd-gynllunio a rhannu adnoddau ac arbennigeddau ar gyfer Dyfodol Llwyddiannus. Cam 2 – Blaenoriaeth i	Dilyniant i Prosiect Let's Think a Cynllun prosiect Ieithoedd Tramor CA2-3 i GWE. (Gweler y cynllun gwariant a gweithredu). Parhau i gydweithio ar y prosiect ac arfarnu effaith. Cynllun Hwylusydd Dyfodol Llwyddiannud Dalgylch drwy GWE – cyfarfodydd, adnoddau a cyd-gynllunio yn sgil y cynllun. Adnabod asesiad lles gwaelodlyn e.e.	Blaenoriaeth 1 i Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu – Prosiecau mewn Ffrangeg/ITM, Llythrennedd Cymraeg a Saesneg Y dalgylch yn cydweithio yn effeithiol ar gyfer cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus ar dysgu ac addysgu a pedagogiaeth, rheoli newid, y 4 Diben, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a'r 6 Maes Dysgu a Profiad. Blaenoriaeth gyntaf i	P Adran Ffrangeg/ITM ac Adran Ffrangeg/ITM, Ymgynghorydd ITM GWE, Athrawon CA2, LET's THINK a'r Adran Saesneg. NJA/LLJ-EWD a Penaethiaid	Tymor yr Hydref Ymlaen – cylch blwyddyn Yn unol a cynllun GWE a LlCymru	Cynllun ITM GWE Cyllid CAM 1 Hwyluswyr Cwricwlwm i Gymru Cyllid CAM 2 – Hwyluswyr Cwricwlwm i Gymru

	I: i) MDaP Iechyd a Lles ii) Cynllunio Strategol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru yn sgil cyhoeddi Fframweithiau a Canllawiau Drafft Cwricwlwm i Gymru Ebrill 2019 a drafft terfynol Ionawr 2020.	Pass CA2 a cynnal asesiad cychwynnol. Tynnu athrawon at eu gilydd er mwyn cynllunio i ymateb i canfyddiadau yr holiaduron ar lefel ysgol a dalgylch. Cyfarfod fel Penaethiaid Dalgylch i ymgyfarwyddo a'r cwricwlwm newydd ar ei ffurf drafft terfynol Ionawr 2020 er mwyn cynllunio gweithgareddau cynllunio strategol ar gyfer Haf 2020 ymlaen – Cynllun 3 mlynedd. Cysylltu hyn gyda'r Safonau Proffesiynol newydd a'r cyllid Dysgu Proffesiynol 2019/20 lle'n briodol. Cydweithio ar addysgeg. **Cyd-gynllunio diwrnod HMS ychwanegol Cwricwlwm i Gymru Haf 2020.**	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ac adrodd yn ol o'r gwaith cenedlaethol. **Ail flaenoriaeth i Iechyd a Lles.** Parodrwydd i gymryd rhan gweithredol yn yr ymgynrhoriad Ebrill 2019 ymlaen; a gweithredu o Ionawr 2020 ymlaen.	Cynradd +Staff YDC a Dalgylch Pob ysgol yn y Dalgylch.		
Trawsnewid ADY	1. Cynllun Hwylusydd Trawsnewid ADY 2. Datganoli CLG Cymorthyddion Dysgu ADY Dalgylch	Yn unol a'r cynllun Hwyluso Trawsnewid ADY GWE/LLCymru. Sicrhau fod staff, llywodraethwyr a rhieni yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad amserol am y trawsnewid ADY. Cyd-gynllunio a cydweithio er mwyn sicrhau dilyniant yn y ddarpariaeth a cefnogaeth cydlynnus ar gyfer disgyblion ADY y dalgylch wrth symud ymlaen tuag at 2021/22 a newidiadau statudol. Cynllunio i ymateb i ddatganoli cyllid a trefniadau cymedroli cymorthyddion	Ymateb i arweiniad GWE/ALl Conwy ar agenda Trawsnewid ADY er mwyn sicrhau fod holl ysgolion yn dalgylch yn barod ar gyfer y newidiadau statudol o 2021 ac yn cydweithio i'r perwyl hynny. Ymateb yn strategol ac yn weithredol i fwriad ALl Conwy i ddatganoli cyllideb a trefniadau cymedroli Cymorthyddion ADY ar lefel Dalgylch a chydweithio ar lefel dalgylch i'r perwyl hynny.	Cydlynwyr ADY yr ysgolion a'r Hwylusydd Dalgylch + Cadeirydd Cyfarfodydd ADY Dalgylch YDC Swyddogion ALl Conwy Penaethiaid/Cydlynwyr ADY y Dalgylch.	2018/19, 2019/20 ymlaen yn unol ac amseriad y cynllun Yn y flwyddyn ariannol 2020/21 ymlaen.	Grant Hwylusydd ADY. Cyllideb wedi ei ddatganoli (Gwanwyn 2020 ymlaen yn unol ac amseriad yr ALl a'r Dalgylch).

		dysgu ADY ar lefel Dalgylch gan ALl Conwy.				
Y Gymraeg	Cydweithio fel dalgylch fel rhan o Strategaeth Addysg Gymraeg Conwy a Cynllun Cymraeg Rhanbarthol.	1. Adnabod hwylusydd dalgylch ac unigolion sydd eisoes yn arwain ar y Cymraeg/Siarter Iaith o fewn ysgolion y dalgylch. 2. Cydweithio er mwyn llunio cynllun hylaw gan wneud defnydd priodol o adnoddau dynol sirol megis y Tim Athrawon Ymgynghorol er mwyn ychwanegu capasiti a rhannu arfer dda. 3. Rhannu gwybodaeth o'r cyfarfodydd strategol a DPP perthnasol er mwyn cefnogi ysgolion y dalgylch i ymateb i'r flaenoriaeth a nod miliwn o siaradwyr 2050. 4. Cyd-gynllunio defnydd strategol o adnoddau cyllidol ychwanegol a prin er mwyn cefnogi y flaenoriaeth.	Ychwanegu capasiti er mwyn ymateb yn strategol i'r flaenoriaeth hon a parhau i ddatblygu y Gymraeg yn y Dalgylch ac ar y cyd gyda Ysgol y Creuddyn a'i Dalgylch yn sirol. Prin iawn yw'r ysgolion tu hwnt i'r ddau dalgylch sydd yn datblygu disgyblion yn wirioneddol ddwyieithog.	Hwyluswyr y Gymraeg Ysgol a Dalgylch. Holl ysgolion y Dalgylch. Holl staff y Dalgylch. Tim Athrawon ymgynghorol Conwy.	2019/20 yn ol y cyfarfodydd ALl a GWE perthnasol.	Cyllid perthnasol drwy cynllun Clwstwr y Gymraeg GWE.

DYDDIADAU O BWYS Cynradd-Uwchradd:

Diwrnod Ymweld Bl. 6 1	27/09/19
Diwrnodau Ymweld Bl. 6 2 a 3	29-30/06/20
Noson Agored i Rieni Bl. 5 a 6	8/10/19 (5.15 – 7.30pm)
Noson Rhieni Blwyddyn 6	**Nos Fawrth – 30/06/20 (6.00pm – 7.00pm)**
Amlgamp 1 (Bro Gwydir)	Chwefror 2020 (Gweithgareddau Iechyd a Lles) – dyddiad i'w gadarnhau
Amlgamp 2 a 3	1-3/7/20 (Gweithgareddau Iechyd a Lles)
Tournament Rygbi	Wythnos 22/6/20 (Gweithgareddau Iechyd a Lles)
(Her Mathemateg	Wythnos 22/6/20 (Gweithgareddau Mathemateg a Rhifedd)
Cymedroli Haf 2020	**Dydd Mercher 25/3/19 – Cymraeg a Saesneg (Iaith); a 1/4/19 Rhifedd a Mathemateg/Gwyddoniaeth.**
Profion Cenedlaethol	**28/04/20 – 05/05/20 (cynradd) / 21/4/20 – 05/5/20 (uwchradd)**
Cynllun Cwricwlwm i Gymru Cam 3: Iechyd a Lles	**Diwrnod 1 (o 3) – 6/11/19 (diwrnod llawn YDC efo Nia Williams, Conwy)**
	Gwyll – 13/11/19 – Hyfforddiant Addysg Perthnasedd a Rhyw a polisiau cysylltiedig (Cynradd) yn YDC
Penaethiaid Dalgylch	**Cyfarfodydd: 2/10/19, 20/11/19 4pm. Tymor y Gwanwyn a Haf i'w trefnu.**
I'w drefnu:	**HMS Cwricwlwm i Gymru Haf 2020 – HMS ar y cyd. Angen cynllunio dyddiad a gweithgareddau.**
	Parhau i gynnal cynlluniau Let's Think a Ieithoedd Tramor/Ffrangeg (Gweithgareddau Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu)
	Defnydd o adnoddau arbennigol – Gweithdy Technoleg; Labordai Gwyddoniaeth – yn ol cais ysgolion cynradd.